# Fframwaith Rhifedd

## Blwyddyn 1

### Adnabod prosesau a chysylltiadau

- trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth
- adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio
- dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol
- dewis cyfarpar ac adnoddau priodol
- defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif

### Adolygu

- defnyddio strategaethau gwirio syml i benderfynu a yw atebion yn rhesymol
- dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol
- dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau syml a dod i gasgliadau priodol

### Cynrychioli a chyfathrebu

- defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain
- cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac ysgrifen, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd
- dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau rhifedd)...

- cyfrif hyd at 20 o wrthrychau'n ddibynadwy
- darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 20 o leiaf
- cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 20 o leiaf
- defnyddio ffeithiau rhif o fewn 10, h.y.: dyblu a haneru (e.e. 4 + 4) bondiau o 10 (e.e. 6 + 4)
- adio a thynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych
- defnyddio strategaethau 'cyfrif ymlaen' i adio 2 gasgliad, gan ddechrau gyda'r rhif mwyaf (e.e. 8 + 5)
- cynnig amcangyfrif synhwyrol ar gyfer nifer o wrthrychau y gellir eu gwirio drwy gyfrif
- defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at 20c
- canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o 10c

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau mesur)...

- defnyddio unedau ansafonol i fesur: hyd, uchder a phellter pwysau (màs) cynhwysedd (e.e. mae'r jwg yn dal 8 cwpanaid)
- defnyddio unedau amser safonol i ddarllen faint o'r gloch yw hi ar glociau analog a chlociau digidol
- defnyddio'r cysyniad o amser yng nghyswllt eu gweithgareddau beunyddiol ac wythnosol a thymhorau'r flwyddyn
- defnyddio geiriau disgrifio ar gyfer ystod o dymheredd, e.e. oerach/poethach

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau data)...

- didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf
- casglu gwybodaeth drwy bleidleisio neu ddidoli a chyflwyno ar ffurf lluniau, gwrthrychau neu luniadau
- llunio rhestrau a thablau syml yn seiliedig ar y data a gasglwyd.

